O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 103 (Cy. 23)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Ffordd Osgoi Llantarnam, Torfaen) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

Gwnaed	*18 Ionawr 2011*
Yn dod i rym	*31 Ionawr 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Casnewydd i'r Amwythig (yr A4042) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r gorchymyn hwn i rym ar 31 Ionawr 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Ffordd Osgoi Llantarnam, Torfaen) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

"ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn, neu mewn cysylltiad â'r gwaith hwnnw, neu unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("works period*")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 22:00 o'r gloch ar 31 Ionawr 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" (*"the length of the trunk road"*) yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A4042 ym Mwrdeistref Sirol Torfaen sy'n ymestyn o Gylchfan Croes-y-Mwyalch i Gylchfan y Tyrpeg.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn cyfeirio at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.